BookTrust
Getting children reading

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

WATERSTONES Children's Laureate 2024–2026




# Hawliau Darllen

Adroddiad Interim
Gwanwyn 2025

**Mae llyfrau yn creu dyfodol mwy disglair**

"Dylai ein byd modern ddiwallu anghenion sylfaenol pob plentyn. Dylai pob un plentyn yn ein cymdeithas gael eu magu yn teimlo'n ddiogel, wedi'i garu ac yn sicr ei fod yn cael ei werthfawrogi. Yn anffodus, nid yw hyn yn wir. Ni ellir bwyta llyfrau ac ni allant gynnig lloches neu gartref ffisegol, ond gallant fod yn offeryn sy'n hyrwyddo empathi, dihangdod a chysur. Fel plant, fe wnaeth llyfrau ganiatáu i ni ddychmygu gwahanol fydoedd – bydoedd lle gallai plant fel ni, y rhai ar yr ymylon, achub y dydd. Neu fydoedd lle gallem chwerthin gyda chymeriadau â'r un heriau â ni. Neu, yn syml, bydoedd lle'r oeddem yn teimlo ein bod yn cael ein gweld a'n deall heb gael ein beirniadu."

Patrice Lawrence MBE, Awdur

Hawlfraint © Frank Cottrell-Boyce
a BookTrust 2025
www.booktrust.org.uk
Darluniau gan Chris Riddell
Dyluniad gan Praline

# Cynnwys



02
**Rhagair gan Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryfog Plant Waterstones**

04
**Rhagair gan Diana Gerald MBE, Prif Weithredwr BookTrust**

06
**Ein Gweledigaeth**

08
**Ein Camau Nesaf**

10
**Ecosystem y Blynyddoedd Cynnar**

11
**Adrodd Straeon Seiliedig ar Le**

12
**Dinas Straeon**

14
**Darllen ar gyfer y Cychwyn Gorau mewn Bywyd**

22
**Darllen mewn Meithrinfeydd ac Ysgolion**

30
**Darllen i Blant sydd mewn Cysylltiad â'r System Gofal Cymdeithasol**

36
**Syniadau o'r Uwchgynhadledd**

38
**Camau Gweithredu**

40
Iaith a Diffiniadau

42
Cyfeiriadau Ymchwil

43
Ynglŷn ag Awdur Llawryfog Plant Waterstones

44
Ynglŷn â BookTrust

# Rhagair

## Frank Cottrell-Boyce,
## Awdur Llawryfog Plant Waterstones

Treuliais fy misoedd cyntaf fel Awdur Llawryfog Plant yn ymweld â mannau lle'r oedd darllen ar y cyd yn gwneud gwahaniaeth.

Ymwelais â chanolfannau teuluol, carchardai, ysgolion a meddygfeydd. Gwelais bethau a gododd fy nghalon a phethau a dorrodd fy nghalon. Yn aml ar yr un dydd.

Fe wnaethom ymweld â'r Labordy Datblygu Babanod ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain, lle gwnaeth yr Athro Sam Wass weirio ymennydd babi a'i mam tra roedd y fam yn darllen iddi. Fe wnaethom ni ryfeddu o weld gweithgarwch ymennydd di-drefn, cynhyrfus y plentyn dawelu a chydamseru â phatrymau ei mam. Roeddem yn gweld ymlyniad emosiynol yn digwydd ar lefel fiolegol. Ond roeddem yn gwylio cyfarpar hapusrwydd yn cael ei adeiladu mewn amser real.

Mewn canolfan deuluol yn Shirecliffe yn Sheffield, clywsom sut roedd prosiect darllen ar y cyd wedi helpu i ddod â chymuned doredig at ei gilydd. Tynnwyd mamau ifanc a oedd mewn trafferthion ag amddifadedd lluosog allan o'u harwahanrwydd, gan gymryd cryfder gan ei gilydd a chyfuno adnoddau i ymdopi â thlodi.

Wedi'i ysbrydoli gan achosion fel y rhain, ym mis Ionawr, trefnodd BookTrust uwchgynhadledd, yn dod ag ymarferwyr, gwyddonwyr, arbenigwyr academaidd, pobl o brosiectau llythrennedd ac o fyd gwleidyddiaeth ynghyd yn y gobaith y byddem yn gallu, drwy rannu'r hyn yr oeddem wedi ei ddarganfod, y byddem yn gallu tynnu sylw at ba mor rymus, hygyrch, effeithlon a rhad y gallai darllen ar y cyd fod fel dull o ran gwella gwydnwch ymhlith plant a lliniaru rhai o effeithiau tlodi.

Uchafbwynt y digwyddiad i mi oedd edrych allan ar draws y neuadd i weld cynadleddwyr o wahanol sectorau – o wahanol fydoedd – yn cyfnewid rhifau ffôn.

Dadwahanu grym.


O fewn ychydig wythnosau, roedd pobl eisoes wedi cychwyn prosiectau newydd. Fe wnaethant weithredu'n gyflym; nid leiaf oherwydd bod y dystiolaeth yno – tystiolaeth wyddonol a thystiolaeth gymdeithasol – ond hefyd gan eu bod yn gallu gweld bod yn achos yn un brys.

Mae plentyndod yn gwibio heibio.

Bydd plant nad ydynt wedi cael y fraint anweledig enfawr o rywun yn darllen iddynt yn rhieni eu hunain yn fuan iawn, a heb gymorth byddant yn trosglwyddo'r anfantais honno i'w plant. Mae'r dasg yn un frys a hollbwysig, ond mae hefyd yn gyflawnadwy ac yn llawn hapusrwydd.

Yn y pen draw, mae'n fater o gofio pwy ydym ni. Y rhywogaeth o storïwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd hanes sut y gallwn droi braint anweledig yn hawl cyffredinol i'n holl blant. Rwy'n gwybod y gallwn roi diweddglo hapus i'r stori hon.




Frank Cottrell-Boyce gan Chris Riddell

Cliciwch i wrando ar recordiad o Frank

# Rhagair

## Diana Gerald MBE,
## Prif Weithredwr BookTrust

Mae'n fraint enfawr i ni gael gweithio gyda Frank Cottrell-Boyce ar yr ymgyrch Hawliau Darllen. Fel elusen darllen plant fwyaf y DU, mae gwaith BookTrust wedi'i wreiddio yn yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth bod darllen yn cynnig manteision dwfn ac amrywiol sy'n cael effaith gadarnhaol gydol oes ar fywydau plant. Darllen straeon gydag oedolyn yw profiad cyntaf plentyn o gelfyddydau a diwylliant. Mae ein rhaglenni darllen yn cynorthwyo miliynau o blant sy'n byw mewn cymunedau amrywiol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon bob blwyddyn, ac mae chwaer-elusen, Scottish Book Trust, yn gwneud gwaith tebyg yn yr Alban. Ond mae gormod o blant yn dal i fethu â chael manteision darllen ar y cyd, a all newid bywydau. Dyma mae'r ymgyrch Hawliau Darllen yn bwriadu ei newid.

Mae ein gweledigaeth yn gofyn am newid a gweithredu. I wneud darllen ar y cyd ac adrodd straeon cynnar yn rhan o fywydau bob dydd pob plentyn, rydym angen polisi, hyfforddiant gweithlu, ymchwil, buddsoddiad a phartneriaethau yn gweithio ar lefelau cenedlaethol a lleol. Rydym yn cydnabod y gallai hyn ofyn am newid i'r ffordd yr ydym yn gwasanaethu ein cymunedau, ond mae'r ewyllys da, y brwdfrydedd a'r gefnogaeth unfrydol gan siaradwyr a chynadleddwyr yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen yn ein llenwi â ffydd a gobaith bod y newid hwn yn gyflawnadwy a bod awydd amdano.

Rydym yn dymuno i'r adroddiad hwn ein huno, ein hysbrydoli a rhoi pwyslais ar ein hymrwymiad cyffredin i wella bywydau plant. Bydd llwyddiant yn dibynnu arnom yn cael gwared ar y rhwystrau rhwng sectorau a gwneud plant yn ganolog i'n syniadau ar sail fforensig. Mae'r ymgyrch Hawliau Darllen yn gwahodd arweinwyr a gweithwyr rheng flaen ar draws bob sectori rannu syniadau a chyfrannu at ein camau nesaf.


Dros y misoedd nesaf, byddwn yn llunio cynllun pendant i fwrw ymlaen â'r gwaith.

Mae'n bwysig cydnabod bod capasiti a gwasanaethau wedi'u hymestyn ar draws y system ar bob lefel, â rhieni yn gwneud penderfyniadau anodd gyda phob ceiniog. Mae darllen ar y cyd yn ddull hynod gost-effeithiol. Yn yr adroddiad hwn, ein bwriad yw dechrau'r sgwrs ac ystyried sut y gallwn fanteisio ar gyfleoedd a seilwaith presennol heb wthio ymarferwyr sydd eisoes wedi'u hymestyn y tu hwnt i derfyn eu capasiti.

Rwy'n eithriadol o ddiolchgar i'r bobl sydd eisoes yn dangos eu hymrwymiad i'r gwaith hwn mewn cynifer o ffyrdd. Mae gweithgarwch BookTrust yn bosibl dim ond trwy bartneriaeth o gymorth gan gyhoeddwyr, awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol eraill, yn ogystal ag arianwyr, gan gynnwys y rhai yn y sector statudol. Dylid cyfeirio'n arbennig at Gyngor Celfyddydau Lloegr, Waterstones a Sefydliad Mohn Westlake am eu cefnogaeth eang a hirhoedlog.

I gloi, hoffwn ddiolch i'r bobl anhygoel ar reng flaen darllen a rhannu straeon. Y llyfrgellwyr, y gweithwyr gofal plant, yr ymwelwyr iechyd, yr athrawon a llawer mwy yw'r rhain, sy'n gweithio ar lawr gwlad i ddod â darllen a straeon yn fyw i blant a theuluoedd bob dydd, a'r awduron a'r darlunwyr anhygoel y mae eu creadigrwydd yn sail i'r gwaith hwnnw – y ceir enghraifft wych ohono gan Chris Riddell ardderchog, a ddarluniodd ein huwchgynhadledd yn fyw, ac y mae ei gwaith yn cyfoethogi'r adroddiad hwn.

Rydym yn gwahodd pawb sy'n poeni am iechyd, llesiant a hapusrwydd plant i ymuno â'r ymgyrch Hawliau Darllen a helpu i wneud gwahaniaeth.




Diana Gerald
gan Chris Riddell

# Ein Gweledigaeth

Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar rai o'r mentrau anhygoel a'r arferion rhagorol yr ydym wedi eu gweld wrth deithio o gwmpas y DU.

Rydym yn gobeithio y bydd ei ddarllen yn eich ysbrydoli. Ond bydd yn golygu dim os na fydd dim yn newid.

Dylai pob plentyn gael y cychwyn gorau mewn bywyd.

Dylai pob plentyn gael y cyfle i glywed straeon a chael profiad o lyfrau yn eu blynyddoedd cynnar. Fel y mae pethau, mae hyn yn fraint: braint a rennir gan lai a llai o blant.

Rydym yn gweld pris y golled honno bob dydd yn lefelau gorbryder cynyddol ein plant.

Rydym o'r farn nid yn unig ei bod yn angenrheidiol ond ei bod hefyd yn gwbl bosibl troi'r trai. Rydym wedi gweld yr hyn a all ddigwydd pan fo pobl yn deall grym anhygoel rhannu straeon yn ystod plentyndod cynnar. Sut y gall greu cysylltiadau, uno cymunedau a chreu cyfleoedd. Mewn llawer o leoedd, rydym wedi gweld yr hyn a all ddigwydd pan fydd arweinwyr a gwasanaethau lleol, rhwydweithiau cymunedol a gweithwyr proffesiynol ym meysydd gofal plant, addysg, iechyd a diwylliant yn dod at ei gilydd i rymuso rhieni a gofalwyr i harneisio grym darllen ar y cyd. Sut y gall gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sydd â diffyg hyder neu ddealltwriaeth o sut i rannu straeon ddatblygu eu sgiliau a chwarae rhan hanfodol. Sut y gellir cyrraedd hyd yn oed y rhai sydd ar yr ymylon amlaf – plant yn y system gofal cymdeithasol, cymunedau sydd wedi'u tanwasanaethu o ran seilwaith a buddsoddiad – â digon o ewyllys da a gwaith da.

Ond nid yw "llawer o leoedd" yn golygu pob lle, ac nid yw ewyllys da yn ddiderfyn.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos yr hyn y gellir ei wneud. Rydym ni angen cymorth llywodraethau i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei wneud yn gyfartal ac i bawb.

Cliciwch i wrando ar recordiad o Frank




"Os byddwn yn gadael y gofod hwnnw – y gofod hwnnw lle mae cariad dynol yn arafu'r byd ac yn ei wneud ychydig yn haws ei lywio – byddwn yn ei ildio i rywbeth nad yw'n ddynol, na wnaiff arafu. Rhywbeth sy'n cynhyrchu gorbryder a chynddaredd yn hytrach na thawelwch a chysylltiad."

Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryfog Plant Waterstones

# Ein Camau Nesaf

Rydym yn gwybod pa fath o brofiadau darllen yn ystod plentyndod cynnar yr ydym eu heisiau pob plentyn i elwa ohonynt a pham mae'r rhain mor bwysig. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ein gweledigaeth ar gyfer darllen yn ystod plentyndod cynnar ac yn rhoi llais i'r arbenigwyr, yr arweinwyr a'r ymarferwyr sy'n gwneud gwaith mor werthfawr yn y maes hwn. Daeth nifer o'r rhain at ei gilydd yn ein Huwchgynhadledd Hawliau Darllen i archwilio syniadau ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon. Gyda'n gilydd, fe wnaethom nodi pum maes lle bydd newid yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar lawr gwlad.
Ein camau nesaf fydd bwrw ymlaen â'r rhain, i wneud cynnydd dros y 12 mis nesaf a thu hwnt:

**Hyfforddi'r gweithlu:** Cynorthwyo'r holl weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar sy'n gweithio gyda phlant ifanc a'u teuluoedd i ddeall manteision darllen cynnar a bod yn hyderus yn rhannu straeon ac yn dangos rhieni a gofalwyr sut i ddarllen gyda'u plant. Mae hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod addysg a hyfforddiant i'r gweithlu yn cynnwys sgiliau ar gyfer adrodd straeon i gefnogi darllen ar y cyd. Rydym yn gofyn i gyrff a sefydliadau proffesiynol a hyfforddi awgrymu lle dylai hyfforddiant ac addysg i'r gweithlu blynyddoedd cynnar gynnwys darllen ar y cyd.

**Polisi, canllawiau a fframweithiau:** Gwneud yn siŵr bod darllen yn ystod plentyndod cynnar yn ymddangos mewn polisi, canllawiau a fframweithiau – lle bynnag y gall wneud gwahaniaeth. Rydym yn galw ar arweinwyr systemau a llunwyr polisi mewn llywodraeth, yn ogystal â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol, i'n helpu i nodi a diwygio'r canllawiau, y polisïau a'r fframweithiau lle gallai tynnu sylw at swyddogaeth darllen gael yr effaith fwyaf.




**Mynediad at lyfrau:** Sicrhau bod gan blant a theuluoedd, trwy weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar, i gyd fynediad at lyfrau o ansawdd uchel sy'n gynrychiadol o'r DU gyfoes. Gellir darparu llyfrau ar gost isel a gellir eu darllen dro ar ôl tro, felly nid yw hwn yn gais drud - ond mae mynediad at lyfrau difyr o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth. Rydym yn galw ar arweinwyr lleol a'r rhai sy'n rhedeg gwasanaethau ar lawr gwlad i nodi lle gallai adnoddau newydd wneud y gwahaniaeth mwyaf; ac i arianwyr ystyried y cais hwn wrth ddylunio meini prawf ar gyfer rowndiau cyllid yn y dyfodol.


**Rhannu ymchwil a thystiolaeth o ansawdd uchel:** Rhannu'r sail dystiolaeth am ddarllen yn y blynyddoedd cynnar gyda phawb sy'n ymwneud â chynorthwyo plant a theuluoedd, mewn ffyrdd sy'n eglur ac yn ystyrlon ac a fydd yn ysgogi newid. Rydym yn galw ar arweinwyr, y rhai sy'n ffurfio barn a sefydliadau sy'n gweithio gydag ymchwil a thystiolaeth i helpu i rannu'r hyn yr ydym yn ei wybod. Lle ceir bylchau mewn gwaith ymchwil – er enghraifft, o ran y rhan y gall darllen ei chwarae i gefnogi ymlyniad i blant yn y system gofal cymdeithasol – rydym yn gweithio i ddarparu ymchwil o ansawdd uchel ac yn gofyn i arbenigwyr ac ariannwyr ein helpu.

**Arweinyddiaeth amlasiantaeth:** Arddangos effaith gadarnhaol darllen ar y cyd cynnar pan roddir arferion effeithiol ar waith mewn modd cydgysylltiedig gan amrywiaeth eang o arweinwyr ar draws cymuned neu ranbarth. Gallai ymwreiddio moel darllen seiliedig ar le yn ystod plentyndod cynnar weddnewid profiadau blynyddoedd cynnar a gwneud y ddadl dros weithredu tebyg ar draws y wlad. Rydym yn galw ar arweinwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i ystyried sut y gallent wneud hyn ar draws eu cymunedau lleol.

Os gallwch ein helpu i wneud cynnydd yn unrhyw un o'r pum maes hyn, cysylltwch â ni yn: readingrights@booktrust.org.uk. Byddwn yn cyhoeddi diweddariad yn disgrifio cynnydd yn y pum maes hyn yn 2026.

# Ecosystem y Blynyddoedd Cynnar

## ar gyfer Plant 0–7 oed a'u Teuluoedd




Dechrau Gorau mewn Bywyd (cynenedigol i 5 oed)
Meithrinfeydd ac Ysgolion (3–7 oed)
Plant Agored i Niwed (cynenedigol i 7 oed)

Mae llawer o wasanaethau fel darpariaethau gwirfoddol, ffydd a chymunedol yn gweithio ar draws bob sector a grŵp oed. Dim ond enghraifft o gymhlethdod ac amrywiaeth y gwasanaethau cymorth yw'r ffeithlun hwn ac ni all gyfleu'r nifer fawr o wasanaethau penodol ar draws pob rhanbarth a gwlad.



# Adrodd Straeon Seiliedig ar Le

## Pwysigrwydd cynnwys Cymunedau Lleol


Mae'r siawns y bydd plentyn yn cael mynediad at lyfrau a straeon – a'r holl gyfoeth emosiynol a datblygiadau sy'n ymhlyg yn hynny – yn cael ei gynyddu'n aruthrol lle gall llyfrau a straeon ddod yn rhan o fywyd teuluol. Yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar hollbwysig hynny.

Dyna pam mae BookTrust yn gweithio gyda gwasanaethau a phobl y gellir ymddiried ynddynt ar draws y sectorau blynyddoedd cynnar ac iechyd i sicrhau bod gan deuluoedd – ym mha bynnag ffurf – y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i roi mynediad i'w plant at y cyfoeth hwnnw. Mae gwaith BookTrust wedi helpu i greu rhwydweithiau o bartneriaid ymrwymedig amrywiol mewn darparwyr awdurdodau lleol, addysg blynyddoedd cynnar, iechyd a thrydydd sector – gan ddatblygu math o ecosystem o ddarllen.

Mae dull seiliedig ar le yn golygu bod gweithgarwch wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion pob cymuned, gan greu perthynas a rhyng-gysylltiadau ar draws gwasanaethau lleol.

Rydym wedi gweld rhaglenni sy'n ysbrydoli mewn gwahanol leoliadau a rhanbarthau ar draws y wlad yn cael effaith drawsnewidiol, ac amlinellir rhai ohonynt yn yr astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn. Rydym yn galw ar arweinwyr lleol a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i ystyried sut y gallent annog ecosystem debyg o ddarllen yn eu hardaloedd eu hunain.





# Dinas Straeon

Man lle mae darllen ac adrodd straeon ystod plentyndod cynnar yn rhan o fywyd bob dydd i bob teulu yw Dinas Straeon. Mae hyn yn digwydd trwy ddull cydgysylltiedig ar draws y gymuned, yn cynnwys gwasanaethau cynenedigol, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, gwasanaethau llyfrgell, meddygfeydd teulu, darparwyr trydydd sector a Gwasanaethau Canolfannau Teuluol 0–19. Mae BookTrust wedi bod yn cydweithredu gydag awdurdodau ers rhai blynyddoedd i ymwreiddio ein rhaglenni mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar trwy Ganolfannau Teuluol a rhwydweithiau blynyddoedd cynnar, dull sy'n ymestyn ein cyrhaeddiad a'n heffaith. Y weledigaeth hirdymor yw datblygu model cynaliadwy y gellir ei gopïo, cynyddu ei raddfa a'i addasu ar draws rhanbarthau eraill – mewn amgylchedd gwledig a threfol – yn unol ag anghenion penodol y gymuned leol.

## Swyddogaeth partneriaid

Mae ecosystem ddarllen leol angen partneriaid fel y rhain:

**Awdurdodau lleol:** Yn Birmingham, mae darllen ar y cyd wedi'i ymwreiddio yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar amlasiantaeth a ddarperir trwy ganolfannau plant, canolfannau teuluol, llyfrgelloedd ac ymwelwyr iechyd. Mae ymarferwyr yn modelu sut i ddarllen gyda babanod a phlant ifanc, gan ddarparu cymorth ymarferol a chyngor i rieni o ran darllen ar y cyd. Yn ogystal â magu hyder, rhoddir llyfrau ac adnoddau i rieni trwy raglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol.

**Gwasanaethau iechyd cyhoeddus:** Yn Barnsley, mae ymwelwyr iechyd yn bwriadu hyrwyddo hyrwyddo manteision darllen i rieni sy'n disgwyl er mwyn helpu i sefydlu arferion cadarnhaol o'r adeg cyn genedigaeth y babi drwy'r blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio gwasanaethau fel bydwreigiaeth. Bydd cymorth a chyngor ynghylch pwysigrwydd darllen ar y cyd yn cael ei atgyfnerthu trwy fannau yr ymddiriedir ynddynt mewn lleoliadau cymunedol, lle bydd rhieni yn cael eu hannog i rannu straeon mewn grwpiau rhieni a phlant. Mae'r tîm 0–19 oed yn bwriadu gweithio gyda llyfrgelloedd i helpu i oresgyn y rhwystrau a wynebir gan rai teuluoedd. Meddai Anna Hartley (Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cyngor Barnsley): “Mae'n fater o ddefnyddio bob un adnodd sydd ar gael i mi i gael pob plentyn i ddarllen. A dyna fy angerdd.”

**Meddygfeydd teulu:** Mae Canolfan Feddygol Millbrook, sy'n feddygfa ac yn rhan o Rwydwaith Gofal Sylfaenol Kirkby ym maes iechyd amenedigol, wedi datblygu'r Kirkby Kitchen, sy'n cynnig cymorth rhianta ymarferol a chyfarwyddyd i rieni newydd sy'n aml yn ifanc. Wedi'i ysbrydoli gan yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen, mae un o bartneriaid y feddygfa, Dr Michael Merriman, yn gweithio gyda BookTrust i hyrwyddo manteision darllen ar y cyd fel dawn rianta.

**Canolfannau Cychwyn Cadarn:** Mae ymarferwyr yng Nghanolfan Cychwyn Cadarn Glenbrook yng Ngogledd Iwerddon yn defnyddio darllen ac adnoddau Dechrau Da i dargedu oedi datblygiadol, i roi hwb i hyder ac ymgysylltiad rhieni, i gryfhau'r berthynas rhwng rhieni a phlant ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol. Caiff rhai teuluoedd eu hatgyfeirio gan ysbytai cyn i'r plentyn gael ei eni, eraill gan ymwelwyr iechyd o archwiliadau yn y flwyddyn neu ddwy gyntaf o fywyd plentyn a rhai o ganolfannau teuluol, neu fel hunan-atgyfeiriadau.

Rydym yn dymuno cynorthwyo ardal i sefydlu cynllun peilot cymuned gyfan sy'n seiliedig ar le, a monitro a rhannu'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael, fel y gallwn ddangos y ddadl dros weithredu tebyg ar draws y wlad.



# Darllen ar gyfer y Cychwyn Gorau mewn Bywyd

## Ein gweledigaeth


- **Mae darllen ar y cyd cynnar yn digwydd ym mhob teulu,** beth bynnag fo'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu, ac mae'n dod yn rhan o brofiadau cynnar pob plentyn.
- **Caiff rhieni a gofalwyr eu cynorthwyo wedyn i fwynhau darllen** gyda'u plant mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw, ac sy'n ysgogi canlyniadau datblygiadol cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol.
- **Mae arweinwyr, gwasanaethau a rhwydweithiau lleol yn cydgysylltu** i hyrwyddo darllen ar y cyd ac adrodd straeon ym mhobman fel strategaeth ddatblygiadol effeithiol ac ymyrraeth lesiant ym mlynyddoedd cynharaf plant.
- **Mae gweithwyr proffesiynol** sy'n gweithio gyda theuluoedd yn gynenedigol ac ym mlynyddoedd cyntaf bywyd yn deall pwysigrwydd darllen ar y cyd ac yn meddu ar y sgiliau a'r gallu i gynorthwyo teuluoedd i ymwreiddio darllen ar y cyd mewn bywyd teuluol cynnar.

## Pam mae'n bwysig dechrau darllen o enedigaeth?

Mae pum mlynedd gyntaf bywyd plentyn yn hollbwysig ar gyfer datblygiad gwybyddol, emosiynol a chorfforol. Mae ymennydd babanod yn tyfu ac yn newid yn gyflymach nag ar unrhyw adeg arall, gan fanteisio ar brofiadau newydd i greu'r cysylltiadau niwral a fydd yn penderfynu ac yn llunio sut maent yn datblygu. Mae cysylltiadau diogel a chariadus mor bwysig i ddatblygiad yr ymennydd ag y mae amgylchedd diogel, deiet iach a chwsg.

Bydd unrhyw un sydd wedi darllen i'w fabi ei hun neu wedi gwylio oedolyn a phlentyn ifanc yn rhannu llyfr gyda'i gilydd wedi gweld grym y profiad ar y cyd hwn o ran datblygu cysylltiadau, agosrwydd a bodlonrwydd. Mae'r dystiolaeth gennym i'w brofi erbyn hyn. Mae gwaith ymchwil a wnaed gan niwrowyddonwyr yn dangos, pan fydd llyfr yn cael ei rannu, bod pethau anhygoel yn digwydd yn ymennydd y babi ac yn ymennydd yr oedolyn.






**Mae darllen ar y cyd yn helpu datblygiad emosiynol a chymdeithasol plant**

Mae plant y darllenir iddynt o'u blynyddoedd cynharaf yn fwy tebygol o ddatblygu perthynas ddiogel gyda'r rhai sy'n gofalu amdanynt a bod â gwell llesiant meddyliol a sgiliau cymdeithasol. Gall darllen i blentyn a rhannu llyfr gyda'ch gilydd fod yn brofiad sy'n creu cysylltiad dwfn i'r oedolyn a'r babi, gan ddatblygu agosrwydd emosiynol a chysylltiad o'r diwrnodau cynnar ar ôl genedigaeth.

Gall straeon fod yn rymus. Pan fyddwn yn uniaethu â chymeriadau ac yn teimlo cysylltiad emosiynol â'u profiadau, rydym yn datblygu sgiliau meddal fel empathi, dealltwriaeth a'r gallu i gysylltu ag eraill. Ceir sail dystiolaeth gref mai iaith yw sylfaen meddyliau a llesiant emosiynol-gymdeithasol plant. Mae plant sy'n gallu siarad am eu teimladau yn gwneud yn well mewn bywyd, ac mae darllen ar y cyd yn creu lle i rannu a thrafod ein teimladau.

> "Os bydd eich cysylltiad cyntaf â llyfr yn dod pan fyddwch chi'n swatio gyda rhywun sy'n eich caru, yna rydych chi'n cael braint anweledig enfawr. Coflaid a fydd yn para gweddill eich oes."

Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryf Plant Waterstones


**Mae trefnau darllen ar y cyd yn creu arferion cadarnhaol**
Pan fydd rhannu straeon yn digwydd yn gyson, gan ddod yn rhan sefydledig o drefn ddyddiol plant, ceir ymdeimlad o ddiogelwch, cysur a strwythur. Rydym yn lapio ein plant yn glyd mewn diogelwch a chariad pan fyddwn yn creu cysylltiad dros lyfr, a'r cysylltiad hwn, nid gallu'r darllenwr, sy'n bwysig.

**Mae darllen ar y cyd hefyd yn helpu i oresgyn anfantais**
Mae plant y darllenir iddynt o'u blynyddoedd cynharaf yn fwy tebygol o oresgyn anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Gall caledi economaidd osod cyfyngiadau ar amser, gallu ac adnoddau rhieni neu ofalwyr, gan effeithio wedyn ar siawns plant mewn bywyd. Ond rydym yn gwybod bod darllen ar y cyd yn gwneud gwahaniaeth. Mae data yn dangos bod plant ag incwm isel sy'n gwneud yn dda ar ddiwedd yr ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywun yn darllen iddynt gartref yn eu blynyddoedd cynnar na'u cyfoedion nad oedd eu profiad cartref yn ei gynnwys.

Ar y cyfan, mae gan y rhai sy'n cael eu magu mewn tlodi ac sy'n wynebu rhwystrau well siawns o symud allan o dlodi fel oedolion os darllenir iddynt fel plant ifanc.

Mae darllen ar y cyd yn datblygu'r llythrennedd emosiynol a chymdeithasol sydd ei angen ar bob plentyn i lywio bywyd yn llwyddiannus.

I ddarllen y gwaith ymchwil sy'n sail i'r manteision hyn, ewch i BookTrust: Manteision darllen



# Astudiaeth achos

## Prosiect Iechyd Cymuned Riverside yn Benwell, Newcastle-upon-Tyne

Mae Riverside yn ganolfan gymunedol ym mhen gorllewinol Newcastle sy'n mynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais gymdeithasol trwy ddull cydweithredol sy'n seiliedig ar brosiectau at wasanaethau a mentrau. I dîm ymwelwyr iechyd arbenigol y ganolfan, mae llyfrau a darllen ar y cyd wedi trawsnewid y ffordd y maent yn cefnogi teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymdopi â phroblemau cymhleth fel anghenion dibyniaeth ac iechyd meddwl.

Pan ymwelodd Frank Cotrell-Boyce â'r ganolfan i ddarganfod yn uniongyrchol sut mae ymwelwyr iechyd arbenigol yn defnyddio rhaglenni BookTrust ar gyfer darllen ar y cyd, cafodd ei daro gan y morâl uchel ymhlith y 10 gweithiwr proffesiynol a gyfarfu: roedd eu hymrwymiad i'w galwedigaeth yn amlwg. "Ar hyn o bryd, mae bron unrhyw grŵp o weithwyr proffesiynol rydych chi'n siarad â nhw ar ben eu tennyn. Nid oedd yr ymwelwyr iechyd hyn o gwbl. Roedden nhw'n disgleirio â phwrpas. Mae eu cyfraddau cadw staff yn enfawr. Roedd yn beth mor hapus i'w weld."

**Mae darllen gyda'i gilydd yn magu hyder rhieni**
Mae llawer o rieni newydd yn meddwl bod siarad â'u babi yn frawychus. Mae dysgu rhannu llyfr gyda'u plentyn yn rhoi sgiliau magu plant a chyfleoedd newydd iddynt greu cysylltiad. Oherwydd eu bod yn cael llyfr yn rhodd i fynd adref gyda nhw drwy'r prosiect Baby Box (gyda chefnogaeth y Children's Foundation a BookTrust), gallant ddefnyddio ac ymarfer y technegau a fodelwyd gan staff Riverside, gan sefydlu arferion iach o ddyddiau cynnar eu babi.

**Defnyddio darllen ar y cyd fel offeryn diagnostig i asesu cerrig milltir datblygiadol**
Fel offeryn i asesu cynnydd datblygiadol, boed hynny'n sgiliau cymdeithasol, emosiynol neu echddygol, mae arsylwi rhyngweithio plentyn yn ystod sesiwn darllen a rennir yn caniatáu i ymarferwyr nodi cryfderau a gwendidau, a hefyd gefnogi eu datblygiad. Dywedodd un o'r ymwelwyr iechyd arbenigol ar gyfer teuluoedd cymhleth a bregus, "Mae'r ffordd y gallwn ddefnyddio llyfrau yn y ffordd fwyaf creadigol i asesu a datblygu plentyn ar gam datblygu penodol yn afreal. Allwch chi ddim gwneud hynny gyda llawer o bethau heblaw gyda llyfr."

## Beth yw'r darlun erbyn hyn?


Mae adborth gan bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yn datgelu bod 9 o bob 10 yn gweithio gyda theuluoedd sydd â gormod o bethau eraill y maent yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw eu blaenoriaethu, sy'n golygu bod darllen ar y cyd ar ei golled.[1] Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod 84% o rieni a gofalwyr yn cytuno bod rhannu llyfrau a straeon yn bwysig i roi'r cychwyn gorau i'w plant.[2]

Ar gyfer 36% o blant 0–4 oed sy'n tyfu i fyny mewn tlodi[3], mae'r rhwystrau i gael rhywun i ddarllen iddyn nhw yn rheolaidd yn ystod plentyndod cynnar yn gallu bod yn anodd ei oresgyn.

Mae ymchwil BookTrust a wnaed gyda theuluoedd ar incwm isel[4] yn dangos bod:

- 95% o ofalwyr a rhieni yn cytuno ei bod yn bwysig darllen gyda'u plentyn ond dim ond 40% sy'n dweud bod stori amser gwely yn rhan o'u trefn arferol.
- 49% heb gerdyn llyfrgell.
- 38% ddim yn darllen gyda'u plentyn oherwydd diffyg amser.
- 30% yn dweud nad yw darllen yn rhan fawr o fywyd y teulu.
- 28% o'r farn nad yw darllen gyda'u plentyn yn hawdd, a 21% yn anhyderus wrth ddewis llyfrau y bydd eu plentyn yn eu mwynhau.

Ni allwn newid yr amgylchiadau economaidd i draean o'r plant yn ein gwlad, ond gallwn sicrhau ein bod yn gwneud mwy i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol wrth ddarllen straeon, gan wneud gwahaniaeth i ganlyniadau plentyn mewn bywyd.




**"Rwyf wedi gweld yr effaith y mae'n ei chael ar deuluoedd a phan fyddwch chi'n chwalu'r rhwystrau rhyng-genhedlaeth hynny i rannu llyfrau ... mae'r buddion yn ddi-ddiwedd."**

Majella Maguire, Cymorth Cynnar a Chanolfannau Teuluoedd, Rheolwr Lleoliad, Cyngor Sefton




## Beth yw'r rhwystrau?

Nid yw cael rhywun yn darllen i chi o oedran ifanc yn beth sy'n digwydd i bawb. I oedolion sydd wedi tyfu i fyny mewn cartrefi heb lyfrau a darllen, nid yw darllen ar y cyd yn rhywbeth y maen nhw'n ei gysylltu ag ymadweithio cadarnhaol a phrofiadau plentyndod. Gall darllen deimlo'n frawychus, gall achosi straen neu gall deimlo'n amherthnasol, ac mae hyn yn cael ei waethygu pan fo'n anodd dod o hyd i lyfrau sy'n adlewyrchu diwylliant, profiadau bywyd, gwerthoedd a chredoau ein cymdeithas amrywiol.

I lawer o rieni babanod newydd, gall y dyddiau cynnar deimlo'n llethol ac yn flinedig iawn. Mae 86% o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yn cytuno mai un o'r heriau y mae rhai teuluoedd yn ei wynebu yw diffyg amser i ddarllen gyda'u plentyn.[1] Mae rhoi sicrwydd ac arweiniad ar y cam cynnar hwn yn hanfodol i helpu rhieni a gofalwyr i greu'r lle gwerthfawr hwn pan allent fod yn teimlo'n ansicr ynghylch sut a pham i ymgysylltu â llyfrau.

Nid oes llyfrau ym mhob cartref. Mae ymchwil BookTrust a gynhaliwyd gyda theuluoedd ar incwm isel yn dangos, i 72% ohonynt, fod y llyfrau sydd wedi eu cynnwys ym mhecynnau Dechrau Da Babi BookTrust ymhlith y cyntaf yr oeddynt wedi eu cael ar gyfer eu plentyn.[5] Er fod pecynnau Dechrau Da Babi yn cyrraedd 90% o'r holl fabanod newyddanedig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, dim ond y cam cyntaf yw hwn. Mae rhoi mwy o lyfrau yn nwylo pob rhiant a gofalwr yn hanfodol.

Mae llawer o rieni a gofalwyr yn credu nad ydynt yn gwybod sut i ddarllen gyda'u babi a phlentyn ifanc. Mae 87% o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yn dweud mai un o'r heriau mae teuluoedd yn ei wynebu yw diffyg hyder o ran sut i ddarllen i'w plentyn ifanc.[1]

Nid Saesneg yw'r brif iaith sy'n cael ei siarad ym mhob cartref, ac rydym yn cefnogi rhieni a gofalwyr drwy gynlluniau megis rhaglenni llyfrau dwyieithog. Gyda'n gilydd mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o roi sicrwydd i rieni a gofalwyr nad oes ffordd "iawn" a ffordd "anghywir". Mae'n ymwneud â rhannu adeg, yr agosrwydd a'r cysylltiad, nid y perfformiad.

# Blwch Ymarfer
## Sefydliad Gwyddoniaeth y Blynyddoedd Cynnar UEL

Mae'r Athro Sam Wass yn niwrowyddonydd gwybyddol datblygiadol sy'n cynnal y Sefydliad Gwyddoniaeth y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Dwyrain Llundain. Mae ei labordy yn cynnal ymchwil i sut mae ymennydd babanod yn gweithio ac yn datblygu, gan ganolbwyntio'n agos ar yr ymadweithio rhwng rhiant a babi. Gan ddefnyddio delweddau o'r ymennydd ac arsylwadau clinigol, mae'r labordy wedi rhoi golwg hynod ddiddorol ar sut mae darllen ar y cyd yn newid cyflwr corfforol a gwybyddol y babanod wrth i'w rhythmau gysoni â'u rhieni'. Yn y Gynhadledd Hawliau Darllen siaradodd Sam am yr hyn sy'n digwydd pan fo babi ac oedolyn yn rhannu stori gyda'i gilydd.

**Mae agosatrwydd corfforol wrth ddarllen yn llywio rhythmau ein corff**

Pan fyddwn ni'n agos at ein gilydd, mae rhythmau ein corff, er enghraifft patrwm anadlu, curiad y galon a symudiadau yn cyd-fynd â'r person arall. I fabanod a phlant ifanc sydd â rhythmau corff mwy anniben, mwy afreolaidd ac anrhagweladwy nag oedolion, mae rhannu stori yn gallu sefydlu rhythm cryfach, mwy sefydlog a rhagweladwy. Mae hyn yn ei dro yn creu tawelwch a'r gallu i ganolbwyntio am gyfnod hir.

Mae cyd-reoleiddio yn gam cyntaf allweddol i allu hunan-reoleiddio, sy'n golygu bod babanod sy'n cael eu tawelu drwy ddarllen iddynt ar y blaen o ran gallu canolbwyntio a dysgu.

**Pam mae rhannu llyfrau yn wahanol i rannu sgriniau**

Pan fyddwn yn rhannu llyfr, byddwn yn mynd ar gyflymdra'r plentyn ac yn dilyn diddordeb y plentyn, yn ailadrodd geiriau a allai fod yn newydd iddynt a siarad am y pethau sy'n eu diddori. Efallai y byddwn yn aros ar lun am amser hir, neu'n mynd yn ôl ac yn hepgor rhai tudalennau, yn ailddarllen rhai tudalennau neu'r llyfr cyfan.

Mae ymennydd babanod yn prosesu gwybodaeth yn llawer arafach nag oedolyn, ac mae lluniau mewn llyfrau yn darlunio emosiynau sydd wedi'u "rhewi" mewn amser. Pan fo babi yn syllu ar lun, mae'n amsugno gwybodaeth ar y cyflymder gofynnol er mwyn dysgu. Yn allweddol, mae darllen gyda'ch gilydd dan arweiniad y plentyn, gan fynd ar y cyflymder y mae ymennydd y plentyn yn gweithio, ond ni ellir rheoli y cyflymder y caiff cynnwys ei gyflwyno ar sgrin gan y plentyn.

Dyma rai o'r ffyrdd y mae darllen ar y cyd yn galluogi plant i ffynnu a llewyrchu. I ddarllen yr ymchwil y tu ôl i'r manteision hyn, ewch i BookTrust: Manteision darllen.

"Cefais y fraint o siarad â'r plant sy'n galw Spellow yn ail gartref, i glywed pa mor gyffrous y maen nhw bod y llyfrgell yn cael ei hailagor, a'u chwilfrydedd ynghylch pa lyfrau fyddai'n aros amdanynt... Rwy'n credu pan fyddwn yn cau'r drws ar y bydoedd ar y tudalennau hyn, rydyn ni'n dwyn o'n plant. Ac rwy'n credu na ddylai eich gallu i ddatgloi eich dychymyg a chanfod modd o ddianc a chael cysur mewn llyfr da fod yn loteri cod post."

Alex McCormick, codwr arian cymunedol, ar ei gwaith i ailagor Canolfan Spellow ar ôl terfysgoedd haf 2024



# Darllen mewn Meithrinfeydd ac Ysgolion

## Ein gweledigaeth

- **Fframweithiau a safonau gofal ac addysg gynnar yn cydnabod rôl eang a sylfaenol darllen yn natblygiad ehangach plant** y tu hwnt i lythrennedd a chanlyniadau cwricwlwm.
- **Gweithwyr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar sy'n gweithio mewn meithrinfeydd ac ysgolion â dealltwriaeth wych o ddarllen ar y cyd, rhyngweithiol (dialogaidd),** a'i rôl yn natblygiad sgiliau iaith plant, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chapsiti gwybyddol. Maent yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac yn hyderus trwy gydol y dydd.
- **Pob meithrinfa ac ysgol â'r adnoddau a'r gefnogaeth i sicrhau bod pob plentyn yn profi darllen rheolaidd er mwynhad trwy fynediad at arbenigedd, llyfrau o ansawdd uchel ac adnoddau darllen.**
- **Meithrinfeydd ac ysgolion yn hybu buddion darllen ar y cyd i rieni,** fel bod plant a theuluoedd yn mwynhau darllen gyda'i gilydd gartref. Mae'n arbennig o bwysig bod teuluoedd yn deall pwysigrwydd parhau i ddarllen gyda'ch gilydd er mwynhad pan fo plant yn mynd i'r ysgol, ynghyd â dadgodio geiriau dros eu hunain ac ymarfer darllen yn annibynnol.



"Roedd plentyn pan ymunodd â meithrinfa am y tro cyntaf a dywedodd: 'Beth yw hwnna?'"

Cheryl McEneaney, Athrawes Derbyn yn Ysgol Fabanod a Meithrin St Francis De Sales



## Pam mae'n bwysig bod darllen ar y cyd wrth wraidd profiad addysgol plentyn?

Po fwyaf y mae rhywun yn darllen i blant, y mwyaf tebygol y maent o ffynnu a llwyddo yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Mae plant cyn oed ysgol sydd â phrofiad addysg gynnar llawn straeon ar y cyd a chwarae dan arweiniad llyfr yn fwy tebygol o fod yn barod ar gyfer yr ysgol. Mae mwy o debygolrwydd y byddant ar y trywydd iawn o ran eu cerrig milltir lleferydd ac iaith. Gall meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant sy'n blaenoriaethu darllen ar y cyd wneud iawn am anfanteision anghydraddoldeb cymdeithasol a thlodi, fel bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i lwyddo.

**Mae darllen ar y cyd yn datblygu sgiliau cyfathrebu ac iaith plant**

Gall iaith llyfrau fod yn gyfoethog ac amrywiol; mae'n tynnu ar eirfa a chystrawen eang nad ydym yn eu defnyddio mewn lleferydd bob dydd. Mae amrywiaeth o astudiaethau ymchwil yn dangos sut mae darllen llyfrau lluniau ar y cyd ym mlynyddoedd cyntaf bywyd plentyn yn rhoi hwb i'w geirfa a'u sgiliau cyfathrebu, gan helpu plant i wneud cysylltiadau rhwng geiriau newydd a'u hystyr, a rhoi hwb i'r cof, a'r gallu i ganolbwyntio.

**Mae gan blant sydd â sgiliau iaith a lleferydd da well sgiliau cymdeithasol a llesiant emosiynol**

Ffurf arbennig o bwerus o ddarllen ar y cyd yw darllen rhyngweithiol, neu ddialogaidd. Dyma pryd fydd oedolyn yn annog plentyn i fynd ati i gyfrannu wrth rannu straeon trwy wahodd sylwadau, dyfalu am ymddygiad y cymeriadau, ailadrodd y geiriau ac annog y plentyn i feddwl y tu hwnt i'r testun. Argymhellir darllen rhyngweithiol gan yr Education Endowment Foundation fel menter cost isel ond sy'n cael llawer o effaith.

Mae "The Best Start in Life" gan Ofsted (a lywiwyd gan ymchwil BookTrust) yn cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i godi ansawdd addysg blynyddoedd cynnar trwy ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac mae'n dweud bod darllen ar y cyd "o fudd i blant oherwydd ei fod yn datblygu eu sgiliau ieithyddol a gwybyddol ar yr un pryd".

Eglurodd Dr Julian Grenier (Uwch Reolwr Cynnwys ac Ymgysylltu yn yr Education Endowment Foundation) sut y mae darllen ar y cyd yn rhoi hwb i gyfathrebu ac iaith gynnar plant: "Rydym yn gwybod bod iaith yn sylfaen i'r ffordd mae plant yn meddwl, ond mae hefyd yn sylfaenol i'w llesiant emosiynol-gymdeithasol. Felly, mae plant sy'n gallu siarad am sut maent yn teimlo yn blant sy'n gallu rhannu eu pryderon, rhannu eu gorfoledd, gwneud ffrindiau, datrys anghydfod ac, yn gyffredinol, bwrw ymlaen yn dda yn y byd. **Rydym yn gwybod bod darllen llyfr ar y cyd yn un o'r arfau mwyaf pwerus sydd gennym i hybu datblygiad iaith gynnar plant."**

Nid yw'n syndod bod ymchwil yn cysylltu datblygiad cynnar plant o sgiliau cyfathrebu ac iaith â gwell canlyniadau addysgol a bywyd, gan gynnwys gwell cyflogadwyedd a gwell iechyd meddwl.[6]

**Mae ysgolion yn hanfodol wrth ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen**

Mae gan athrawon hefyd ran hanfodol wrth ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen trwy flaenoriaethu a gwneud amser ar gyfer darllen er mwynhad yn unig drwy gydol y diwrnod, trwy gyfeirio plant at ddetholiad eang o lyfrau, a thrwy osod disgwyliadau teuluol am bwysigrwydd parhau i ddarllen ar y cyd er mwynhad gartref.

Mae rhannu straeon yn cefnogi amgylcheddau dysgu hapusach, tawelach

Mae astudiaethau ymchwil yn dangos bod darllen yn cefnogi llesiant plant trwy leihau straen, gwella empathi a chryfhau gwytnwch. Mae plant sy'n ymwneud fwyaf â darllen dair gwaith yn fwy tebygol o brofi lefelau uwch o lesiant meddyliol na'r rhai sy'n ymgysylltu lleiaf.




"Mae angen cyfle ar bob plentyn i ddechrau creu cyfarpar hapusrwydd ynddynt eu hunain. Mae darllen ar y cyd – yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar – yn elfen hanfodol o'r cyfarpar hwnnw."

Frank Cottrell-Boyce, Llawryfog Plant Waterstones

**Mae llyfrau stori yn hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl a gwneud synnwyr o'r byd**

Ar y cyfan, er bod dysgu darllen yn gofyn am waith gwybyddol caled ar ran y dysgwr, wrth ddarllen er mwynhad mae'r llyfr stori yn gwneud y gwaith caled, gan alluogi'r plentyn i ddysgu yn ddiymdrech, fel y dangosir gan ein Blwch Ymarfer ar dudalen 27.

I ddarllen yr ymchwil y tu ôl i'r manteision hyn, ewch i BookTrust: Manteision darllen

## Beth yw'r darlun nawr?

Mae'r dull systematig strwythuredig o ddarllen a nodir yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Lloegr wedi creu cenhedlaeth o blant sydd ymhlith y darllenwyr mwyaf medrus yn y byd. Yn seiliedig ar PIRLS, prawf darllen rhyngwladol i blant 10 oed, mae Lloegr ymhlith y gwledydd sy'n perfformio orau yn y byd am berfformiad darllen. Fodd bynnag, pan ofynnir am fwynhad darllen, mae'n ddarlun gwahanol. Dim ond 29% o blant 10 oed yn Lloegr, o'i gymharu â 42% ledled y byd, sy'n dweud eu bod yn hoffi darllen "yn fawr iawn".[7] Mae ystadegau BookTrust hefyd yn dangos bod mwynhad o ddarllen yn gostwng wrth i blant fynd ymlaen drwy'r ysgol, gan ddisgyn o 33% o blant 7 mlwydd oed sy'n dwlu ar ddarllen i 25% erbyn diwedd yr ysgol gynradd.[8]


O ystyried y manteision dwfn a gydol oes sy'n gysylltiedig â darllen yn rheolaidd ac o ddewis, mae angen i ni atal y dirywiad ym mwynhad darllen plant ar frys. Pan

fydd plant yn dechrau'r ysgol, mae darllen rheolaidd gartref yn dirywio.[9]

Mae gan athrawon rôl allweddol wrth feithrin cariad plant at ddarllen. Hebddo, mae gormod o blant yn colli'r awydd i ddarllen.

Ar yr un pryd, mae'r manteision llesiant a gynigir gan ddarllen yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod gan 1 o bob 5 o blant gyflwr iechyd meddwl tebygol (tua 6 o blant ym mhob ystafell ddosbarth) a bod hanner yr holl broblemau iechyd meddwl yn datblygu cyn 14 oed.[10] Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddwl bellach yw'r ail gategori mwyaf cyffredin o gymorth AAAA mewn ysgolion.

Mae'n anodd dod o hyd i ddata ar lefelau rhannu straeon a darllen yn uchel i blant er mwynhad, mewn lleoliadau addysgol. Mae 62% o rieni a gofalwyr yn dweud bod eu plant yn gwrando ar oedolyn yn darllen llyfr neu stori yn ystod gwersi, sy'n awgrymu nad yw hyn yn wir i dros draean o'n plant.[8]



"Mae ein plant yn agos at frig y cynghreiriau byd-eang o ran y sgil mecanyddol o ddarllen ond yn agos at y gwaelod pan ddaw i ddarllen 'er pleser'. Rydyn ni wedi dysgu pob cam ac enwau'r holl alawon. Ond dydyn nhw ddim yn dawnsio."

Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryfog Plant Waterstones



# Blwch Ymarfer

## *Where the Wild Things Are* – pam mae angen llyfrau stori ar blant




Mae Where the Wild Things Are yn llyfr stori cyfarwydd y mae llawer yn dwlu arno a grëwyd gan yr awdur a'r dylunydd Americanaidd Maurice Sendak, a gyhoeddwyd yn y 1960au. Mae'n llyfr syml, wedi ei ysgrifennu heb lawer o eiriau ond wedi'i darlunio'n brydferth sy'n archwilio chwilfrydedd plant ag anarchiaeth ymddygiad gwyllt, a chysur a sicrwydd bod yn ddiogel ac wedi eich caru. Yn y gynhadledd, defnyddiodd y bardd a'r awdur Michael Rosen y stori i ddangos sut y mae testunau aml-dull yn creu sgaffald ar gyfer dealltwriaeth plant ifanc o'r byd o'u cwmpas, gan hwyluso dehongliadau soffistigedig o weithredoedd cymeriadau. Soniodd am ymateb ei fab ei hun i foment allweddol yn y stori.

"Ac roedd Max, brenin holl bethau gwyllt, yn unig ac roedd eisiau bod lle'r oedd rhywun yn ei garu orau oll."

*"Un diwrnod, gwnaeth ein mab 3 blwydd oed, a oedd wedi 'defnyddio' y llyfr hwn lawer gwaith ar gyfer adlewyrchu ac astudio dwfn, gan wneud ychydig iawn o sylwadau, mewn ymateb i'r llinell hon, 'Mami!'*

*Rwyf wedi ysgrifennu am hyn fel enghraifft o 'ddehongliad', nid 'adalwad' neu 'amhariaeth', oherwydd nad yw'n ymateb cywir nac anghywir... Does dim 'Mami' yn y testun. Mae 'mam' ar ddechrau'r llyfr ond yr unig beth mae hi'n ei wneud yw anfon Max i'w ystafell a'i 'phrofiad' yw derbyn bygythiad Max i'w 'bwyta hi i gyd'. Nid oes eglurhad mewnol na rheswm i feddwl mai 'Mami!' yw'r 'rhywun' a fyddai'n caru Max (neu'r darllenydd) 'gorau oll'. Mewn geiriau eraill, y prif ffordd y gallwch gyrraedd at 'Mami!' fel ymateb yw drwy ddefnyddio eich profiad eich hun... Ar ddiwedd y stori pan fo'n ymddangos bod Max yn cael ei wobrwyo â phlât o fwyd poeth, eto nid yw'r testun yn dweud pwy wnaeth ei ddarparu. Mae'n destun 'agored'. Roedd yn gwahodd y darllenydd i dehongli'r 'bylchau'."*

Mae "dehongli'r bylchau" yn strategaeth y byddwn yn ei ddysgu pan fyddwn yn ddarllenwyr profiadol. Ac eto dyma blentyn ifanc yn gwneud naid wybyddol enfawr. Dyma bŵer llyfrau stori. Er fod llyfrau ffoneg sydd wedi'u dylunio i ddysgu plant sut i ddadgodio geiriau yn adnoddau dysgu gwerthfawr, ni allant – ac ni fwriedir iddynt – gymryd lle llyfrau stori. Llyfrau fel *Where the Wild Things Are* sy'n creu'r tirlun mewnol sy'n llywio ein hunainiaeth fel unigolion ac yn ein helpu i wneud synnwyr o'n byd.

# Astudiaeth achos
## Meithrinfa Cymuned Meadows

Mae Meithrinfa Meadows yn cael ei rhedeg gan Brifysgol Sheffield Hallam fel rhan o Ganolfan Ymchwil Gymunedol y Blynyddoedd Cynnar. Nid lleoliad blynyddoedd cynnar yn unig ydyw; mae'n rhan o brosiect aml-asiantaeth sy'n dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd ar draws gwasanaethau cymorth i deuluoedd y rhanbarth. Mae'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu wedi ei heffeithio'n ddwfn gan gyni, y pandemig a'r argyfwng costau byw. Dywed Sally Pearse (Arweinydd Strategol ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Chyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Gymunedol y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Sheffield Hallam) fod eu perthynas â rhieni yn seiliedig ar ymddiriedaeth a gafwyd trwy wrando a chlywed am eu profiadau.


"Ein man cychwyn bob amser yw 'beth sydd wedi digwydd i chi', nid 'beth sydd o'i le gyda chi'. Mae llawer o'r teuluoedd yn cyrraedd yn dweud 'nid yw ein plant yn hoffi llyfrau', 'nid oes gan ein plant ddiddordeb mewn straeon'. A'r hyn a ddarganfuom oedd nad oedd hynny'n wir. Ac nid oedd yn wir i'n rhieni chwaith.

Ond mae'n ymwneud â dod o hyd i amser ac egni, ymhlith popeth arall sy'n digwydd, i ymgysylltu â phethau. Trwy wrando'n ofalus a rhoi cefnogaeth, mae pethau wedi newid. O fewn y feithrinfa, rydym yn defnyddio'r rhaglen Twitch, a ddatblygwyd gan gydweithiwr i mi ac sy'n canolbwyntio ar ddarllen straeon dro ar ôl tro. Felly mae'r plant ifanc hynny yn dod yn arbenigwyr brwdfrydig ar y stori honno. Maen nhw'n mynd â'r straeon hynny adref gyda nhw, maen nhw'n eu hailadrodd yn y feithrinfa, maen nhw'n eu hailadrodd i'w brodyr a'u chwiorydd, ac maen nhw'n eu hailadrodd i'w cyfoedion.

Yr hyn sydd wedi bod yn anhygoel yw eu hyder wrth ddweud eu stori wrth weinidogion, gwneuthurwyr polisi ac i'r tîm a oedd yn gwneud rhaglen ddogfen Panorama y llynedd.

Mae gennym ni gynlluniau mawr. Mae adrodd straeon wedi bod wrth wraidd pethau, ond mae'r rhieni hefyd wedi eu hyfforddi i fod yn hyfforddwyr ar gwrs o'r enw 'Knowledge to Nurture'. Y wybodaeth am sut i gefnogi eu plant ond hefyd i adnabod eu hunain a chefnogi eu hunain, ac mae rhannu llyfr yn rhan o hynny."

I ddarllen am ymweliad Frank Cottrell-Boyce â Meithrinfa Meadows, ewch i "Storytelling can be a shared pleasure": Frank Cottrell- Boyce's visit to a Sheffield nursery. Erthygl yn y Saesneg.



## Beth yw'r rhwystrau i ddarllen a sicrhau bod llyfrau wrth wraidd addysg gynnar pob plentyn?

Mae ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar yn dweud wrthym fod llawer o staff â diffyg hyder wrth ddarllen yn uchel. Yn yr un modd, mae rhai yn dweud wrthym nad oes ganddynt hyder wrth gefnogi teuluoedd i barhau i ddarllen gyda'i gilydd gartref, fel rhan o gefnogi amgylchedd dysgu cartref cyfoethog ac ymgysylltu rhwng y cartref a'r ysgol. Er gwaethaf yr ystod eang o fanteision sy'n gysylltiedig â darllen, a'i rôl wrth gyflawni blaenoriaethau allweddol y llywodraeth – er enghraifft, wrth gefnogi plant i gyrraedd lefel dda o ddatblygiad wrth iddynt ddechrau'r ysgol – nid yw darllen ar y cyd bob amser mor amlwg a ag y gallai fod mewn fframweithiau canllawiau polisi.


Mae gallu cael gafael ar lyfrau o ansawdd uchel ac adnoddau cymorth darllen yn her i lawer o leoliadau blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rhai â thrafferthion o ran lefelau cyllid, ac i rai ysgolion cynradd hefyd. Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yn 2022, nid oes gan 14% o ysgolion cynradd ardal llyfrgell. Datgelodd y data hefyd fod ysgolion sydd â nifer uwch o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai tebygol o fod â llyfrgell.[11]

Mae wyth o bob deg (81%) o athrawon cynradd yn nodi eu bod yn wynebu llawer o rwystrau wrth annog disgyblion i ddarllen er mwynhad. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys heriau adnoddau, er enghraifft diffyg amser i adael i blant ddarllen (36%), diffyg adnoddau (10%) neu ddiffyg llyfrau y mae disgyblion yn eu mwynhau (18%).[12]


# Darllen i Blant sydd mewn Cysylltiad â'r System Gofal Cymdeithasol

## Ein gweledigaeth

- Mae ymchwil i effaith gadarnhaol a gwerth darllen ar y cyd i blant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol yn nodi'n glir **manteision profiadau darllen ar y cyd cynnar ar gyfer bondio ac ymlyniad, sefydlogrwydd a hunaniaeth.**
- **Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd mewn gofal maeth, gofal gan berthynas a mabwysiadu yn deall pwysigrwydd darllen ar y cyd** fel strategaeth i'w defnyddio ochr yn ochr ag ymyriadau arbenigol ar gyfer creu ymddiriedaeth a pherthnasoedd, gwella wedi trawma a darparu lle diogel i blant ifanc sydd wedi cael profiadau bywyd anodd neu heriol.
- Mae gwasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant sydd mewn cyswllt â gofal cymdeithasol yn cael cymorth i integreiddio **strategaethau darllen ar y cyd mewn hyfforddiant a chefnogaeth.**
- **Rhoddir llyfrau ac adnoddau o ansawdd uchel** iddynt sy'n diwallu anghenion y plant sydd mewn cyswllt â gofal cymdeithasol, ac maent yn cael y gefnogaeth y maent ei heisiau a'i hangen i fwynhau rhannu straeon gyda phlant yn eu gofal.








## Pam mae'n bwysig?

Mae darllen ar y cyd cynnar yn bwysig i bob plentyn. Pan fydd babanod a phlant wedi profi tarfu ar berthnasoedd cynnar, neu wedi profi trawma, cam-drin neu esgeulustod, gall darllen ar y cyd fod yn arbennig o drawsnewidiol. Mae darllen ar y cyd yn cefnogi ymlyniad a bondio a gall helpu plant i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu caru. Mae'n rhoi dihangfa, sy'n gweithredu fel ffactor amddiffynnol rhag adfyd; ymdeimlad o sefydlogrwydd; dull o drafod materion anodd a dwys; a ffordd o ailgysylltu â phrofiadau ac emosiynau.

Yn seiliedig ar dystiolaeth bersonol ac ymchwil, gwyddom fod rhannu straeon yn creu manteision uniongyrchol a thymor hwy i blant a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt.

Mae ymchwil a gynhaliwyd gan BookTrust yn dangos bod 90% o ofalwyr maeth a ddarllenodd gyda'r plentyn yn eu gofal wedi dweud ei fod wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r berthynas rhyngddynt. Po fwyaf aml y mae gofalwyr yn darllen gyda'u plentyn, y mwyaf tebygol yr oeddent i ddweud bod darllen wedi gwella eu perthynas. Mewn cyfweliadau, dywedodd gofalwyr fod treulio amser o ansawdd yn rhannu llyfr yn un o'r ffyrdd gorau o gysylltu â'u plentyn.[13]


### Mae llyfrau'n creu cysylltiadau ac yn helpu i greu ymddiriedaeth

Mae bondio dros stori ar y cyd yn helpu i greu ymddiriedaeth. I blant sy'n delio â thrawma, gall treulio amser unigol yn darllen llyfr greu lle ar gyfer emosiynol diogel. Mae'n dangos iddynt eu bod yn bwysig, bod ganddynt holl sylw oedolyn a'u bod yn ddiogel. Hyd yn oed os bu adegau yn y dydd na aeth yn dda, gall darllen ar y cyd roi sicrwydd i'r plentyn eu bod yn cael eu caru. Clywsom gan ymarferwyr sy'n ei ddisgrifio fel "coflaid, cwtsh ac anwesiad", ffordd o gynnig cysylltiad ac agosatrwydd.

**Mae llyfrau yn rhoi trefn, strwythur a rhagweladwyedd**
Bydd plant sydd mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol wedi profi newidiadau a thrawsnewidiadau sy'n hynod annifyr ac yn aml yn drawmatig. Gall llyfrau a darllen ar y cyd helpu mewn amrywiaeth o ffyrdd trwy gyflwyno rhagweladwyedd, trefn a strwythur. Mae llyfrau stori fel arfer wedi'u strwythuro o amgylch bwa naratif clir, sy'n gorffen gyda diweddglo boddhaol sy'n datrys unrhyw densiynau neu broblemau yn y stori. Mae hyn yn rhagweladwy, yn gysurus ac yn dawel. Mae iaith llyfrau stori yn defnyddio rhythm, odl ac ailadrodd i annog plant i ragweld beth fydd yn digwydd nesaf ac ymuno â'r geiriau. Mae hyn yn helpu ymennydd plant ifanc i ragweld a pharatoi ar gyfer newid cyn iddo ddigwydd, a thrwy hynny leihau straen a chaniatáu i blant ganolbwyntio.

**Mae llyfrau yn cefnogi datblygu hunaniaeth**
Pan fydd plant yn gallu gweld eu hunain a'u teuluoedd a'u cymunedau yn y llyfrau maen nhw'n eu darllen, ac uniaethu â'r cymeriadau a'r straeon, mae hyn yn dilysu eu profiadau. Trwy atgyfnerthu hunaniaeth gadarnhaol, mae plant yn adeiladu hunan-werth a hyder. I blant sy'n teimlo ychydig o reolaeth dros y penderfyniadau a wneir am eu bywydau bob dydd, gall cynnig dewis o ba lyfr i'w ddarllen roi eiliad o reolaeth sydd ei angen yn fawr.

**Gall llyfrau hyrwyddo ymdeimlad gwell o lesiant**
Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos canlyniadau llesiant darllen. Mae straeon yn darparu dihangfa meddyliol diogel, gan hyrwyddo ymlacio a helpu plant i reoli gorbryder trwy eu trochi mewn gwahanol fydoedd neu safbwyntiau. Rydyn ni'n dysgu o ymddygiad cymeriadau mewn llyfrau oherwydd gallwn weld eu meddyliau, eu teimladau a'u hemosiynau. Gall hyn roi mewnwelediadau newydd i ni i'n hymddygiad ein hunain ac eraill, a gallwn hyd yn oed fenthyg strategaethau ymdopi o'r llyfrau rydyn ni'n eu darllen. I blant sydd wedi cael profiadau poenus neu drawmatig, mae llyfrau yn ffordd ddiogel o archwilio teimladau fel dicter, ofn a thristwch.



"Mae darllen ar y cyd yn weithred o gariad sy'n arafu gweddill y byd a gall dawelu'r dryswch."

Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryfog Plant Watersones

**Mae darllen ar y cyd yn llawenhau**
Gall llyfrau fod yn ddoniol, yn chwareus, yn wirion ac yn ddiogel chwyldroadol. Mae llawer o lyfrau plant yn gwahodd yr oedolyn a'r plentyn i gydgynllwynio gyda doniolwch a chwerthin. Bydd unrhyw un sydd wedi gwylio neu gymryd rhan mewn darllen straeon ar y cyd yn gwybod hyn, a byddant wedi cael mwynhad wrth rannu llawenydd a hapusrwydd a'r cysylltiad mae hyn yn ei greu. I ofalwyr, a allai deimlo wedi'u llethu a gorbryder ynghylch y ffordd orau o roi cymorth, mae rhannu llyfr yn weithgaredd ymarferol sy'n syml ac yn hawdd ei wneud.

I ddarllen yr ymchwil y tu ôl i'r manteision hyn, ewch i BookTrust: Manteision Llesiant Darllen i Blant. Erthygl yn y Saesneg.

## Beth yw'r darlun nawr?

Mae costau gofal cymdeithasol plant yn uchel ac yn tyfu yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn gwariant ar wasanaethau ymyrraeth gynnar. Mae nifer y plant sy'n profi gofal cymdeithasol fel cyfran o boblogaeth plant y DU yn cynyddu, ac mae llawer mwy o blant mewn gofal gan berthynas[14] – yn aml mewn trefniadau anffurfiol gyda gofalwyr gan deimlo'n anweledig neu heb gefnogaeth. Mae plant sydd mewn cysylltiad â'r system gofal a'r rhai sydd â phrofiad o ofal gan berthynas yn fwy tebygol o fod ag anghenion addysgol arbennig: er enghraifft, mae ymchwil gan Kinship yn dangos bod 31% o blant mewn gofal gan berthynas wedi cael diagnosis neu amau anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl.[15] Ac mae plant mewn gofal yn cael canlyniadau addysgol gwael ar gyfartaledd o gymharu â phlant eraill, gan gynnwys bod yn llai tebygol o fodloni disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran wrth ddarllen.[16]

# Astudiaeth achos
## Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Bradford



Mae Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Bradford yn darparu gofal cymdeithasol i blant ar ran Cyngor Bradford. Maen nhw wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth sy'n cynnwys gofal cymdeithasol plant, iechyd, addysg, heddlu a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi anghenion plant.

Fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal ac Ymarfer Cymdeithasol, mae Ruth Terry yn eiriolwr angerddol dros bŵer darllen ar y cyd i sicrhau bod plant yng ngofal yr ymddiriedolaeth yn cael y canlyniadau gorau bosibl. Yn y Gynhadledd Hawliau Darllen, amlinellodd y ffyrdd y gall darllen ar y cyd greu cysylltiadau rhwng plant ac oedolion, gan greu ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd, gan gefnogi bod mewn cytgord a hybu llesiant emosiynol ymhlith plant.

*"Rydyn ni'n ystyried hyfforddiant ym maes darllen. A yw pobl wir yn gwybod sut i ddarllen i blant? Sut olwg sydd ar hynny? Rydyn ni'n gweithio gyda gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, gweithwyr preswyl ac eraill ar sut i wneud hynny, a sut i gefnogi rhieni i ddarllen gyda'i plant. Fe wnaethom ddarn mawr o waith ar hynny yn Leeds ychydig o flynyddoedd yn ôl ac roedd yn llwyddiannus iawn. Eto, mae'n ymwneud â symbylu'r gweithlu hwnnw ar yr agenda hon."*

Un o'r rhaglenni y mae Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Bradford yn ei darparu drwy ysgol rithiol i'r plant a'r teuluoedd hyn yw rhaglen Clwb Blwch Llythyrau BookTrust.

Bu'r rhaglen o fudd i dros 250 o blant yn Bradford eleni. Mae'r rhaglen wedi ei dylunio i sbarduno mwynhad a chariad at ddarllen i blant mewn gofal maeth. Hefyd, mewn gweithdy yn ddiweddar mewn grŵp cymheiriaid i ofalwyr sy'n berthynas yn Shipley, rhoddwyd cefnogaeth i ofalwyr i fagu hyder a sgiliau darllen ar y cyd, yn ogystal â detholiad o lyfrau i gefnogi sgyrsiau am hunaniaeth ac emosiynau.



## Beth yw'r rhwystrau?


Mae nifer o rieni maeth, gofalwyr sy'n berthynas a theuluoedd mabwysiadu yn ei chael yn anodd cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac a fyddai'n cefnogi'r plant yn eu gofal orau.

Gall gofalwyr sy'n berthynas yn arbennig ei chael yn anodd yn ariannol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu, a gallant ganfod eu hunain y tu allan i'r gwasanaethau sydd wedi eu dylunio i gefnogi teuluoed.[15]

Mae gallu dod o hyd i lyfrau sy'n gynrychioliadwy y gall y plant yn eu gofal uniaethu â nhw yn bwysig i deuluoedd, ond mae angen dod o hyd iddynt – a'u cefnogi i gael gafael arnynt, oherwydd gall prynu llyfrau newydd fod yn anfforddiadwy. I deuluoedd nad ydynt yn darllen yn rheolaidd ac sy'n rheoli anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, gall y disgwyliad i greu profiad darllen tawel delfrydol deimlo'n frawychus, a bydd angen cymorth arnynt i weld beth sy'n gweithio iddyn nhw a'u plant. Mae gweithwyr cymdeithasol yn aml yn gweld gwerth darllen ac wrth eu bodd yn gallu rhoi llyfrau ond efallai y bydd yn anodd iddynt ganfod amser ac adnoddau ar gyfer hyn, o ystyried pwysau llwyth gwaith a blaenoriaethau proffesiynol sy'n cystadlu.



# Syniadau o'r Uwchgynhadledd



Yn ystod yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen, fe wnaeth y cynadleddwyr fapio meddwl eu syniadau ar gyfer gweithredu unigol a chyfunol, ar gyfer cydgysylltu gwasanaethau ac ar gyfer cryfhau'r ddadl dros blant yn darllen – gan greu mannau cyswllt newydd ac ehangu cyrhaeddiad mentrau presennol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi rhywfaint o'r drafodaeth.

Clywsom gan ymarferwyr ac arweinwyr sy'n gweithio mewn cymunedau lle mae ymddiriedaeth rhwng teuluoedd a llywodraeth wedi cael ei herydu, gan arwain at ddatgysylltiad â rhai o'r gwasanaethau y bwriedir iddynt eu cynorthwyo.

Nododd eraill y gall lleoedd a mannau diwylliannol, gan gynnwys llyfrgelloedd, fod yn amgylchedd croesawgar yn aml, yn gwbl wahanol i fannau sefydliadol – ond y gallant hefyd godi ofn ar rai teuluoedd. Clywsom hefyd ar ôl blynyddoedd o gyni cyllidol, y pandemig a'r argyfwng costau byw parhaus, bod nifer y teuluoedd sy'n byw mewn caledi yn cynyddu. Mae capasiti yn y system wedi'i ymestyn, ac ar yr un pryd mae llawer o deuluoedd ar ben eu tennyn.

"O glywed y drafodaeth heddiw a'r dystiolaeth ar sut mae darllen ar y cyd yn hyrwyddo datblygu trefn arferol a rheolaeth emosiynol, rwy'n meddwl am y plant ar ein cofrestr ddiogelu a sut y byddaf yn sicrhau bod darllen ar y cyd yn rhan o'u darpariaeth ddyddiol benodol ac wedi'i theilwra tra yn yr ysgol ac mae'n weithredu sy'n dilyn cyfarfodydd diogelu… fel bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o bwysigrwydd darllen ar y cyd a'r effaith y mae'n ei chael."

Kiran Satti, Dirprwy Bennaeth yn Oasis Academy Woodview



## Syniadau i'w harchwilio

**Gwneud newidiadau bach ym mhob lleoliad a sector**
Clywsom am gydweithwyr sy'n bwriadu cynnwys darllen ar y cyd yng nghynlluniau gofal cymdeithasol plant fel ymyrraeth lesiant, a chan athrawon sy'n bwriadu ei ymwreiddio mewn strategaethau diogelu ysgolion.

**Gwneud darllen ar y cyd yn rhan o ofal cynenedigol a gwasanaethau iechyd blynyddoedd cynnar**
Gofynnodd cydweithwyr beth arall y gellid ei wneud i roi'r arfau i'r gweithlu iechyd blynyddoedd cynnar sicrhau bod mannau cyswllt â theuluoedd mor effeithiol â phosibl. Cafwyd awgrymiadau y gellid gwneud hyn trwy ychwanegiadau at hyfforddiant i ymwelwyr iechyd neu ymwreiddio gofynion sgiliau newydd mewn safonau hyfedredd.

**Hyrwyddo manteision llesiant darllen ar y cyd i blant mewn cysylltiad â gofal cymdeithasol**
Gan fod darllen ar y cyd yn aml yn cael ei ystyried fel ymyrraeth llythrennedd sy'n rhoi hwb i iaith a chyfathrebu, mae'r manteision llesiant ehangach weithiau'n cael eu hanghofio yn y system gofal cymdeithasol i blant. Siaradodd cydweithwyr am yr angen i ddangos a chofnodi yn well y ffyrdd y gall darllen ar y cyd gynorthwyo plant mewn gofal.

**Camau i gyrraedd plant sy'n byw mewn tlodi**
Clywsom awgrymiadau ar gyfer alwad gyfunol i lywodraeth ymwreiddio hawliau darllen fel dull hanfodol o leihau tlodi plant.

**Ymwreiddio darllen ar y cyd mewn ysgolion a dysgu yn y cartref**
Awgrymodd cydweithwyr archwilio newid statudol fel ysgogiad – neu ddatblygu polisïau darllen enghreifftiol ar gyfer ysgolion (gan adeiladu ar Fframwaith Darllen yr Adran Addysg) sy'n blaenoriaethu ymgysylltiad ysgol gartref ar ddarllen ar y cyd a mwynhau darllen.

**Cynnwys darllen ar y cyd a darllen ar gyfer mwynhad rheolaidd mewn canllawiau cenedlaethol a fframweithiau statudol**
Ymwreiddio darllen ar y cyd a darllen ar gyfer mwynhad yng Nghwricwla Cenedlaethol y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Cynradd, er enghraifft, a chanllawiau rheoleiddio fel Fframwaith Arolygu Ofsted neu Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

**Sicrhau mynediad at amrywiaeth eang o lyfrau**
Siaradodd cydweithwyr yn yr uwchgynhadledd am leoedd lle gall plant gael gafael ar lyfrau – o lyfrgelloedd i archfarchnadoedd – ac am yr angen i'r rhain gael eu stocio gyda llyfrau o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu profiadau bywyd plant. Clywsom hefyd gan gyhoeddwyr am ffyrdd o hyrwyddo a chynorthwyo awduron a darlunwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn y diwydiant, a strategaethau i ddosbarthu'r llyfrau hyn yn eang.

# Camau Gweithredu

Dim ond y man cychwyn yw'r adroddiad hwn. Bydd angen mwy o ddata, gwrando, dealltwriaeth a phartneriaeth arnom i wireddu uchelgeisiau'r ymgyrch. Mae'n rhaid i anghenion a lleisiau plant a phobl ifanc – yn enwedig y rhai sydd wedi'u tanwasanaethu gan y system neu sy'n wynebu gwahaniaethu – a'r oedolion sy'n eu cefnogi fod yn flaenllaw i'n syniadau a'n gweithredu cyfunol.



## Yr hyn sy'n digwydd nawr:

- Cyhoeddi'r adroddiad hwn, ei rannu gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill
- Trafodaethau bord gron gyda phartneriaid
- Cyfarfodydd partneriaeth ar lefel leol a chenedlaethol
- Ail Uwchgynhadledd Hawliau Darllen ddechrau 2026
- Ail Adroddiad Hawliau Darllen, sy'n rhoi manylion cynnydd, yn ystod haf 2026

Mae'r adroddiad hwn yn alwad i weithredu i arweinwyr ym mhobman gymryd camau mewn pum maes lle bydd newid yn arwain at drawsnewid gwirioneddol ar lawr gwlad. I archwilio posibiliadau hyfforddiant gweithlu; polisi, canllawiau a fframweithiau; mwy o fynediad at lyfrau; rhannu ymchwil a thystiolaeth o ansawdd uchel; ac arweinyddiaeth amlasiantaeth i integreiddio darllen ym mhobman.

Rydym yn dymuno i'r adroddiad hwn ein hun, ein hysbrydoli a rhoi pwyslais i'n hymrwymiad cyffredin i wella bywydau plant.

"Mae'n rhaid mai heddiw yw'r cychwyn. Nid yw'n golygu dim os na fyddwn yn newid rhywbeth."

Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llawryfog Plant Waterstones

"Mae angen i ni flaenoriaethu darllen llyfrau ar y cyd. Mae'n un o'r technegau addysgegol mwyaf grymus sydd gennym ni yn y blynyddoedd cynnar... Mae angen momentwm, pwyslais a breintio gwirioneddol arnom ni ynghylch y maes hwnnw o rannu llyfrau a straeon, gan y bydd yn arwain at fanteision gydol oes i'r plant dan sylw."


Julian Grenier, Uwch Reolwr Cynnwys ac Ymgysylltiad ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Sefydliad Gwaddol Addysgol

"Mewn cymdeithas, rydym yn siarad llawer am y ffaith fod plant sydd wedi bod trwy drawma angen darpariaeth arbenigol – ac mae hynny'n wir i lawer ohonynt – ond ceir yr un nifer hefyd o eiliadau o ofal, cariad a bod gyda'i gilydd, trwy ddarpariaeth faethu, a all gael effaith yr un mor ddwys o ran eu hadferiad o'u trawma a'u gwellhad. Mae angen i ni siarad llai am ddarllen yn ymwneud ag addysg a mwy am fanteision darllen ar gyfer cysylltedd, ar gyfer cariad, ar gyfer datblygu perthynas, dim ond ar gyfer bod gyda'n gilydd."

Sarah Thomas, Prif Swyddog Gweithredol, Y Rhwydwaith Maethu

# Iaith a Diffiniadau

Wrth lunio'r adroddiad hwn, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn bod pob cyfres o randdeiliaid (blynyddoedd cynnar, addysg, iechyd a diwylliant) yn defnyddio gwahanol iaith, termau technegol a llaw-fer i ddisgrifio eu harferion. Weithiau mae'r un gair yn golygu gwahanol bethau mewn gwahanol sectorau. Rydym yn ceisio creu dogfen sy'n dod â'r partïon hyn at ei gilydd mewn fframwaith cyffredin, ac felly rydym wedi cynnwys yr eirfa hon i'n helpu gyda'r gyd-ddealltwriaeth honno. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio model cymdeithasol anabledd fel y fframwaith sylfaenol ac yn ceisio defnyddio iaith gynhwysol fel bod pob plentyn a theulu yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu gwerthfawrogi, ac yn ganolog i'r stori.




**Plant mewn cysylltiad â'r system gofal cymdeithasol:** Plant a gynorthwyir gan wasanaethau cymdeithasol i blant i gael amgylcheddau cartref diogel, sefydlog a magwrol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o drefniadau gofal gan gynnwys mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas.

**Lleoliadau cymunedol:** Lleoedd lleol, hygyrch yr ymddiriedir ynddynt mewn cymuned – fel llyfrgelloedd, grwpiau rhieni a phlant neu wasanaethau iechyd – lle gall teuluoedd dderbyn cymorth a chyngor.

**Gwasanaethau ymyrraeth gynnar:** Nodi a darparu cymorth cynnar effeithiol i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael.

**Blynyddoedd cynnar:** Y blynyddoedd cyntaf ym mywyd plentyn, sy'n hollbwysig i'w ddatblygiad gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol. Ystyrir yn nodweddiadol ei fod o enedigaeth tan iddynt ddechrau'r ysgol, ond yn yr adroddiad hwn rydym yn trin blynyddoedd cynnar plant fel 0-7 oed.

**Ecosystem darllen:** Rhwydwaith p bobl, gwasanaethau a sefydliadau rhyng-gysylltiedig – fel awdurdodau lleol, addysg blynyddoedd cynnar, gwasanaethau iechyd a grwpiau cymunedol – sy'n cydweithio i ymwreiddio darllen ar y cyd ym mywydau plant a'u teuluoedd.



**Llyfrau o ansawdd uchel:** Llyfrau sy'n arf ar gyfer dysgu, cysylltiad â llawenydd. Maent yn cynnwys iaith gyfoethog a lluniau sy'n addas yn ddatblygiadol i gynorthwyo llythrennedd, datblygiad emosiynol a chwilfrydedd cynnar plentyn.

**Darllen rhyngweithiol/dialogaidd:** Pan fo oedolyn yn annog plentyn i ddod yn gyfranogwr gweithredol wrth rannu straeon trwy wahodd sylwadau, myfyrio ar ymddygiad y cymeriadau, ailadrodd y geiriau ac annog y plentyn i feddwl y tu hwnt i'r testun.

**Ymyrraeth:** Gweithred, strategaeth neu bolisi sydd â'r nod o wella canlyniadau. Er enghraifft, mewn maes penodol, fel llesiant neu lythrennedd plant.

**Braint anweledig:** Mantais anweledig a roddir i rai yn unig oherwydd mynediad anghyfartal at ddarllen ar y cyd cynnar. Testunau aml-ddull: Mae testun aml-ddull yn cyfuno dau neu fwy o ddulliau cyfathrebu i greu ystyr fel testun, delweddau neu sain.

**Hunaniaeth:** Dealltwriaeth unigolyn o bwy ydyw, fel y'i llunnir gan ei brofiadau, ei gysylltiadau, diwylliant, credoau, gwerthoedd a'r cymunedau y mae'n perthyn iddynt. Mae hunaniaeth plant yn datblygu dros amser trwy ryngweithio ag eraill a'r byd o'u cwmpas, gan eu helpu i greu ymdeimlad o bwy ydynt, ble maent yn perthyn a'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw.

**Darllen ar gyfer mwynhad:** Darllen gwirfoddol ar gyfer pleser a boddhad personol, yn hytrach nag at ddibenion addysgol.

**Diogelu:** Y polisïau, arferion a gweithdrefnau a roddir ar waith i sicrhau bod bob plentyn yn ddiogel, yn cael ei amddiffyn ac yn derbyn gofal da.

**Parod ar gyfer yr ysgol:** Lefel parodrwydd plant i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn amgylchedd ysgol. Mae hyn yn cynnwys sgiliau cymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol.

**AAAA (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd):** Plant sydd ag anhawster neu anabledd dysgu sy'n gofyn i ddarpariaeth addysgol arbennig gael ei gwneud ar eu cyfer, fel y'i diffinnir yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014. Yng Nghymru, adnabyddir hyn fel Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

**Darllen ar y cyd:** Y broses o ddarllen a rhannu llyfrau gyda phlant yn ei ystyr mwyaf cyffredinol – gan gynnwys darllen ar lafar iddynt, darllen gyda'ch gilydd, a chreu cyfleoedd i ryngweithio, trafod a chysylltu ynghylch y llyfr.

**Llesiant emosiynol-gymdeithasol:** Gallu unigolyn i adnabod, rheoli a mynegi ei emosiynau a datblygu cysylltiadau cadarnhaol.

**Adrodd straeon:** Yr arfer addysgegol o rannu straeon a darllen ar lafar gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar. Mae oedolion yn defnyddio'r llais ac ystumiau'r wyneb a'r corff i ddifyrru pobl ifanc a dod â straeon yn fyw. Mae'n cefnogi datblygiad iaith, yn datblygu sgiliau gwrando a sylw, yn meithrin creadigrwydd a dychymyg ac yn helpu plant i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas.

**Man cyswllt:** Eiliad neu gyfle lle mae unigolion, gwasanaethau neu gymunedau yn cysylltu ac yn ymgysylltu i gefnogi nod cyffredin. Mae mannau cyswllt yn gyfleoedd allweddol i gysylltu gwasanaethau, i gydweithio ac i ehangu cyrhaeddiad mentrau darllen.

**Lleoedd yr ymddiriedir ynddynt:** Lleoliadau cyfarwydd, dibynadwy a chefnogol mewn cymuned lle gall teuluoedd gael mynediad at wasanaethau, adnoddau a chyfarwyddyd. Gallai lleoedd yr ymddiriedir ynddynt gynnwys canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, gwasanaethau iechyd a grwpiau rhieni a phlant.

**Cymunedau a phobl a danwasanaethir:** Pobl neu gymunedau sydd wedi cael eu hanghofio neu eu cynorthwyo'n annigonol gan systemau. Gallai hyn fod oherwydd diffyg buddsoddiad yn arwain at seilwaith gwael.

# Cyfeiriadau Ymchwil

1. BookTrust (2025) Arolwg ar-lein o bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Ebrill 2025. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 666 o bartneriaid BookTrust.

2. BookTrust a Nielsen BookData (2024) Arolwg ar-lein o rieni/ gofalwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 873 i rieni/gofalwyr plant 0–7 oed.

3. Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2025) Households below average income: for financial years ending 1995 to 2024. Cyhoeddwyd 27 Mawrth 2025.

4. BookTrust (2022) Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr o aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2022. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 1,818 o rieni/gofalwyr plant 0–4 oed.

5. BookTrust (2022) Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr o aelwydydd incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2022. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 974 o rieni/gofalwyr plant 0–1 oed.

6. OECD (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd) (2018) "The Power and Promise of Early Learning". Paris: OECD Publishing.

7. Lindorff, A., Stiff, J., a Kayton, H. (2024) PIRLS 2021: National Report for England. Llundain: Yr Adran Addysg.

8. BookTrust (2024) "Primary school children's reading and the vital role teachers play in nurturing reading enjoyment". Llundain: BookTrust.

9. BookTrust (2021) Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr a phlant yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2021. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar ymatebion gan 2,369 o rieni/ gofalwyr plant 3–11 oed a 1,128 o blant 11–17 oed.

10. Newlove-Delgado, T., Marcheselli, F., Williams, T., Mandalia, D., Dennes, M., McManus, S., Savic, M., Treloar, W., Croft, K., a Ford, T. (2023). Mental Health of Children and Young People in England, 2023. Leeds: GIG Lloegr.

11. National Literacy Trust (2022) Working Together Towards a Library in Every Primary School. Llundain: National Literacy Trust.

12. BookTrust a Teacher Tapp (2024) Arolwg ar-lein o athrawon yn Lloegr a gynhaliwyd ym mis Awst 2024. Data heb eu cyhoeddi. Ffigurau yn seiliedig ar 2,942 o athrawon ysgol gynradd.

13. Rix, K., Lea, J. ac Edwards, A. (2017) Reading in foster families. Llundain: BookTrust a Biwro Cenedlaethol y Plant.

14. NSPCC (2024) "Statistics briefing: children in care". Llundain: NSPCC.

15. Kinship (2024) "Forgotten: Support for kinship children's education and mental health". Llundain: Kinship.

16. Yr Adran Addysg (2024) "Outcomes for children in need, including children looked after by local authorities in England", blwyddyn adrodd 2023. Llundain: Yr Adran Addysg.



# Ynglŷn ag Awdur Llawryfog Plant Waterstones

Mae Frank Cottrell-Boyce yn awdur llyfrau plant a sgriptiwr ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau niferus. Enillodd Millions, ei nofel gyntaf i blant, Fedal Carnegie CILIP uchel ei bri. Mae ei lyfrau eraill yn cynnwys Cosmic, Framed, The Astounding Broccoli Boy, Sputnik's Guide to Life on Earth, Runaway Robot, Noah's Gold, The Wonder Brothers a The Blockbusters!. Mae wedi cydweithio ers amser maith â'r darlunydd arobryn Steven Lenton. Mae llyfrau Frank wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer llu o wobrau, gan gynnwys Gwobr Ffuglen y Guardian, Gwobr Ffuglen Plant Whitbread, Gwobr Ddoniol Roald Dahl a Gwobr Lyfrau Blue Peter.

Frank yw Awdur Llawryfog Plant presennol Waterstones. Awdur Llawryfog Plant Waterstones yw cynrychiolydd blaenllaw llenyddiaeth plant, a ddyfernir bob dwy flynedd i awdur neu ddarlunydd enwog i gydnabod talent eithriadol. Rheolir y swyddogaeth uchel ei bri hon gan BookTrust ac fe'i noddir gan Waterstones, ac mae'n dathlu creadigrwydd ac adrodd straeon, yn hyrwyddo hollbwysigrwydd darllen a llenyddiaeth plant ac yn hyrwyddo hawl pob plentyn i fwynhau bywyd wedi'i gyfoethogi gan lyfrau a straeon.

# Ynglŷn â BookTrust

BookTrust yw elusen darllen i blant fwyaf y DU, gan gyrraedd dros 1.3 miliwn o blant a theuluoedd bob blwyddyn ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn blaenoriaethu cymorth i blant a theuluoedd o gefndiroedd teuluol incwm isel ac agored i niwed, a darllen ar y cyd cynnar – gan fod manteision darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar yn drawsnewidiol. Mae plant sy'n dewis darllen ac sy'n darllen yn rheolaidd yn hapusach ac yn iachach. Mae'n yn creu cysylltiadau a pherthnasoedd cryfach. Maent yn gwneud yn well yn yr ysgol ac yn fwy creadigol. Maent yn mwynhau mwy o lwyddiant mewn bywyd. Dyma pam rydym yn gweithio gyda dros 6,000 o bartneriaid ar draws meysydd iechyd ac addysg gynnar, ysgolion, llyfrgelloedd ac awdurdodau lleol, i gynorthwyo teuluoedd gyda rhaglenni sydd wedi'u hysbysu gan dystiolaeth yr ydym yn gwybod sy'n cael plant yn darllen yn rheolaidd a thrwy ddewis.
Syr Michael Morpurgo yw ein Llywydd ac Ei Mawrhydi y Frenhines yw ein Noddwr.

Mae rhagor o waith ymchwil ar ddarllen plant a manteision darllen ar gael drwy'r dolenni isod ac yn booktrust.org.uk/research-impact (Erthygl yn y Saesneg):

- Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar
- Darllen plant ysgol gynradd
- Swyddogaeth 'dylanwadwyr darllen' lluosog o ran cefnogi teithiau darllen plant
- Darllen yn y blynyddoedd cynnar: cynorthwyo cylchoedd cenedliadol o ddarllenwyr
- Manteision darllen
- Swyddogaeth darllen i blant sy'n agored i niwed: adeiladu sylfeini cryf am oes



# Cydnabyddiaethau

Mae'r adroddiad hwn wedi'i ysbrydoli a'i hysbysu gan yr Uwchgynhadledd Hawliau Darllen, a gynhaliwyd yn Lerpwl ar 22 Ionawr 2025, a ddaeth â lleisiau arbenigol ar draws y sectorau gwleidyddol, addysg, llythrennedd, blynyddoedd cynnar, y celfyddydau, llyfrgelloedd ac iechyd ynghyd.

Yn ystod yr uwchgynhadledd, cafwyd cyfraniadau gan arweinwyr llywodraeth genedlaethol a lleol, gan gynnwys Maer Dinas-ranbarth Lerpwl Steve Rotheram, y Comisiynydd Plant y Fonesig Rachel de Souza a Chyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cyngor Barnsley, Anna Hartley. Rhannodd yr Athro Sam Wass ei waith ar niwrowyddoniaeth yr hyn sy'n digwydd i ymennydd babi pan fydd oedolyn yn darllen iddo, a siaradodd Dr Julian Grenier o'r Sefydliad Gwaddol Addysgol am bwysigrwydd addysgol darllen ar y cyd.

Cafwyd tystiolaeth gan Sarah Thomas (Prif Swyddog Gweithredol y Rhwydwaith Maethu), Lucy Peake (Prif Swyddog Gweithredol Kinship) a Ruth Terry (Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cymdeithasol ac Arferion yn Ymddiriedolaeth Plant a Theuluoedd Bradford) ar swyddogaeth darllen ar y cyd o ran helpu plant i lywio trawma, a sut y gall llyfrau fod y cam cyntaf i ail-adeiladu ymddiriedaeth a chysylltiadau rhwng plant a'u gofalwyr. Archwiliodd Sally Pearse (Arweinydd Strategol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol Sheffield Hallam) bwysigrwydd gwrando ar deuluoedd a chyd-greu atebion.

Dangosodd Awdur Llawryfog Plant blaenorol Waterstones, Michael Rosen, sut y gall stori dwyllodrus o syml gyfleu syniadau cymhleth, gan alluogi plant i fynd y tu hwnt i'r testun a'r lluniau.
Fe wnaeth Cressida Cowell (Cynfardd Llawryfog Plant Waterstones arall), Neil Leitch (Prif Weithredwr yn Early Years Alliance) a Matthew Courtney (Cyd-arweinydd Hyb Lloegr Wandle Learning Hub) i gyd ein hatgoffa am y pwysau aruthrol a wynebir gan rieni sy'n gweithio, a sut y mae angen i ni gydweithio i oresgyn heriau anghydraddoldeb sy'n gwaethygu rhaniadau cymdeithasol.

Dywedodd y gweithiwr codi arian cymunedol Alex McCormick wrthym pam wnaeth hi arwain yr ymgyrch i ail-agor Hyb Spellow ar ôl iddo gael ei ddinistrio gan y terfysgoedd yn ystod haf 2024, a'r hyn y mae bod a mynediad at lyfrau a darllen yn ei olygu i'r gymuned.

Diolchwn o galon i'r holl bobl uchod.

Hoffai Frank Cottrell-Boyce a BookTrust ddiolch hefyd i'r canlynol am eu mewnbwn a'u cymorth wrth lunio'r Adroddiad Hawliau Darllen: Chris Riddell, Melissa Mackinlay, Lizzie Crump MBE, Samantha Stimpson, Nzinga Orgill a Wendy Shakespeare.

Hoffem ddiolch i'r unigolion, y cwmnïau, yr ymddiriedolaethau a'r sefydliadau niferus a gefnogodd ein gwaith yn hael, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Lloegr, Waterstones a diwydiant cyhoeddi llyfrau plant y DU

"Mae darllen ar y cyd yn creu hapusrwydd. Siawns nad oes unrhyw well ymdrech na cheisio creu hapusrwydd ein plant."

Darren Henley
Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Lloegr

"Ni ddylai darllen fod yn foeth, dylai fod yn rheidrwydd."

Steve Rotheram
Maer Cyngor Dinas Lerpwl

"Hawliau Darllen...wedi ymroi i rywbeth mor sylfaenol, ac eto ddim yn cael ei werthfawrogi'n ddigonol ac yn cael ei anghofio mor aml – hawl pob plentyn i ddarllen."

Y Fonesig Rachel de Souza
Comisiynydd Plant Lloegr

Reading Rights